**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD: CYFARFOD 16 MEHEFIN YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, BAE CAERDYDD**

## CRONFEYDD STRWYTHUROL

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi cefndir cryno'r Cronfeydd Strwythurol, ac yn tanlinellu'r materion cyfredol sy'n deillio ohonynt ac yn effeithio ar Gymru.

### Cefndir

2. Y Cronfeydd Strwythurol yw'r prif fecanwaith sydd ar gael i'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn gweithredu polisi datblygu rhanbarthol yr UE. Mae pedair prif gronfa, sef:

- Y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF)
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
- Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop(EAGGF); a'r
- Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (FIFG)

3. Mae'r Cronfeydd wedi cynyddu'n raddol o ran eu maint a'u cwmpas, wrth i'r UE ei hun esblygu. Ar y cychwyn, fe'u defnyddiwyd i ariannu projectau unigol a ddetholwyd yn uniongyrchol o Frwsel, ond ym 1988 bu diwygiadau helaeth a arweiniodd at sefydlu 4 prif egwyddor, sef canolbwyntio (yn ddaearyddol ac o ran blaenoriaethau); rhaglennu (cynlluniau integredig ar gyfer datblygu rhanbarthol); partneriaeth (cydweithio agosach â'r Aelod Wladwriaethau a phartneriaid lleol); ac ychwanegoldeb (y disgwyliad y byddai'r adnoddau yn ategu yn hytrach nag yn cymryd lle ariannu cenedlaethol).

4. Fel rhan o'r diwygio hwn, a weithredwyd yn ystod y cyfnod 1988-93, sefydlwyd nifer o Amcanion yn ymwneud â rhanbarthau penodol (Amcanion 1, 2 a 5(b)) a rhai yn gymwys yn genedlaethol ledled yr UE. Yn achos Cymru, derbyniwyd cyllid Amcan 2 (Ardal ddiwydiannol De Cymru a Chlwyd) ac Amcan 5(b) ar gyfer hen siroedd Dyfed, Gwynedd a Phowys. Yr oeddem hefyd yn gymwys i dderbyn cymorth o dan Amcan 5 (a) (addasu strwythurau amaethyddol) ac Amcanion 3 a 4 a oedd yn cefnogi gweithgareddau hyfforddi.

5. Ymgymerwyd ag adolygiad pellach o'r Cronfeydd Strwythurol ym 1993 a chytunwyd ar gasgliad cyflawn o Reoliadau diwygiedig ar gyfer 1994-99. O ganlyniad i hyn yr oedd Cymru

bellach yn gymwys o dan Amcan 2 ar gyfer ardal ddiwydiannol De Cymru ac o dan Amcan 5(b) ar gyfer Cymru Wledig. Mae'r ddwy Raglen hyn, sy'n cwmpasu 70 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru, yn darparu tua £530m o gefnogaeth y Cronfeydd Strwythurol a fydd yn fuddsoddiad gwerth £1.5 biliwn dros y cyfnod o 6 blynedd. Yr oedd Amcanion 3 a 4 hefyd yn gymwys i Gymru, ond ar sail genedlaethol Prydain Fawr.

6. Yn ychwanegol at y prif Raglenni, elwodd Cymru o tua 11 o'r 13 Menter Gymunedol a ddaeth â thua £55m yn ychwanegol o adnoddau'r Cronfeydd Strwythurol yn ystod y cyfnod 1994-99. Y Rhaglenni yw INTERREG (cydweithio trawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon); RECHAR (hen ardaloedd y meysydd glo); RESIDER(colledion swyddi yn y diwydiant dur); RETEX (yr ardaloedd sy'n dibynnu ar decstilau); PESCA (pysgodfeydd); URBAN (ardaloedd dinesig difreintiedig); LEADER (datblygu gwledig); ADAPT ac EMPLOYMENT (adnoddau dynol), KONVER (dirywiad yn y diwydiannau amddiffyn) ac SMEs (datblygu mentrau bach a chanolig eu maint).

7. Ysgrifennydd Gwladol Cymru sydd â'r cyfrifoldeb, ar hyn o bryd, am weinyddu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, gan gynrychioli'r DU fel Aelod Wladwriaeth. Bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad o 1 Gorffennaf ymlaen ac mae'n cynnwys cyfrifoldeb ariannol llawn am yr holl Gronfeydd, ac eithrio ESF sy'n parhau'n gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth, er bod ei drosglwyddo i Gymru yn fater sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

8. Ar hyn o bryd, Gweithrediaeth Rhaglen Ewropeaidd Cymru gyf. (WEPE) sy'n ymdrin â cheisiadau am gymorth ariannol gan y Rhaglenni hyn (heblaw am INTERREG ac URBAN). Mae WEPE yn gweithredu gydag awdurdod dirprwyedig yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant, ac fe dderbyniodd y cyfrifoldeb hwn ym mis Gorffennaf 1997. Mae dwy swyddfa ganddo, y naill yng Nghwm Cynon, ger Aberpennar, a'r llall ym Machynlleth. Telir ei gostau yn rhannol trwy gyfrwng cymorth technegol a geir o'r Rhaglenni perthnasol, ac yn rhannol gan ffioedd ceisiadau (sy'n daladwy gan bob ymgeisydd wrth gyflwyno'i broject) a ffi rheoli sy'n amrywio o 1.1 a 2 y cant o gyfanswm y grant a gymeradwyir. Mae'r Swyddfa Gymreig yn monitro perfformiad WEPE ac yn talu cyllid y Cronfeydd Strwythurol i brojectau a gymeradwywyd (heblaw taliadau ESF) a wneir gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE) yn Llundain.

**Agenda 2000**

9. Ym mis Gorffennaf 1997, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Agenda 2000 sy'n ymdrin â'r holl agweddau ar bolisi rhanbarthol yr UE, gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol. Y prif gynigion ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol oedd:

- lleihau nifer yr Amcanion o saith i dri (Amcanion 1(ardaloedd sydd ar ei hôl hi'n economaidd); 2 (diwydiannol, gwledig, pysgodfeydd ac

ardaloedd dinesig sy’n wynebu ailstrwythuro economaidd a chymdeithasol) a 3 (datblygu adnoddau dynol);

- lleihau nifer y Mentrau Cymunedol o 14 i 3 (INTERREG, LEADER +, EQUAL) ond cynyddwyd hyn wedyn i 4 gan Senedd Ewrop trwy ychwanegu URBAN; a
- chanolbwyntio’r Cronfeydd ymhellach trwy leihau eu cylch daearyddol o tua 50 y cant i rhwng 35 a 40 y cant o gyfanswm poblogaeth yr UE.

10. Mae’r newidiadau hyn wedi eu trosi’n Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol sydd yn debygol o gael eu mabwysiadu erbyn diwedd Mehefin 1999, yn dilyn trafodaethau manwl a hir rhwng y Comisiwn a’r Aelod-Wladwriaethau (cyfrannodd y Swyddfa Gymreig yn sylweddol i hyn). Maent i ddod i rym ar 1 Ionawr 2000 i gynnwys y cyfnod 7 mlynedd hyd at fis Rhagfyr 2006.

11. Ochr yn ochr â’r trafodaethau hyn, cytunodd Llywodraeth y DU â’r Comisiwn Ewropeaidd y byddai’n briodol ac yn amserol, yn bennaf o ganlyniad i ad-drefnu llywodraeth leol, i adolygu ei dosbarthiadau NUTS (Cyfundrefn Enwau Unedau Ystadegau Tiriogaethol) fel ag y’u cymhwysir yn y DU. Y rhain yw’r dosbarthiadau ystadegol a ddefnyddir gan Swyddfa Ystadegol y Comisiwn (EUROSTAT) yn bennaf yng nghyd-destun cymhwyster ar gyfer y Cyllid Cronfeydd Strwythurol. Yn dilyn ymgynghoriad eang yng Nghymru a thrafodaethau hirfaith rhwng y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Eurostat, cytunwyd ar ddau brif newid ar gyfer y Dywysogaeth. Y newid cyntaf, a’r mwyaf arwyddocaol, oedd creu 2 ardal NUTS II newydd (gweler Atodiad A sy’n amgaeedig) a ffurfiodd ardaloedd newydd yn cynnwys Gorllewin Cymru a’r Cymoedd, ac un arall ar gyfer Dwyrain Cymru. Yr oedd y newidiadau mawr eraill yn gysylltiedig â NUTS III lle y maent, yn awr, yn cyfateb i naill ai ardaloedd awdurdodau lleol unedol sengl neu grwpiau o ardaloedd yr awdurdodau lleol. Mae’r dosbarthiad NUTS II a ddisgrifir uchod yn hanfodol bwysig ar gyfer statws Amcan 1, ac mae’r ail yn bwysig ar gyfer Amcan 2.

**Cwmpas ac ymdriniaeth yn y dyfodol**

12. O ganlyniad i’r newidiadau yn nosbarthiad NUTS II ar gyfer Cymru, bu’n bosibl am y tro cyntaf i gydnabod y ffigurau GDP isel a geir mewn sawl rhan o Gymru. O ganlyniad mae **Gorllewin Cymru a’r Cymoedd,** sydd â GDP o 71 y cant o gyfartaledd yr UE, yn gymwys ar gyfer statws Amcan 1. Mae hyn yn cynnwys tua 1.9 miliwn neu ddwy ran o dair o gyfanswm poblogaeth Cymru. Yn ogystal â thebygrwydd o gynnydd sylweddol yn lefel yr hyn a dderbynnir o Gronfeydd Strwythurol, mae statws o’r fath yn hwyluso’r posibilrwydd o ystyried cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol, megis ffyrdd, telegyfathrebu ac egni.

13. Mae’r Swyddfa yn rhan o drafodaethau ar lefel DU mewn perthynas â chwmpas Amcan 2. O dan y rhaglenni cyfredol, mae 550,000 o unigolion yn **Nwyrain Cymru** yn gymwys i dderbyn

cefnogaeth Cronfeydd Strwythurol. Er hynny, ar ôl caniatáu darpariaethau ar gyfer "rhwyd ddiogelwch" arbennig, mae'r DU yn gyffredinol yn wynebu gostyngiad o draean yn y cwmpas Amcan 2 sydd ar gael ar gyfer y cyfnod 2000-06 a bydd angen penderfynu ar sefyllfa **Dwyrain Cymru** o fewn y fframwaith hwn. Er hynny, gallai'r DU gynnig ei meini prawf cymhwyso ei hun i'r Comisiwn ar gyfer cyfran sylweddol o gwmpas Amcan 2 ac yr ydym wedi argymell ystyried meini prawf a fyddai'n ystyried anghenion Cymru. Disgwylir i'r DU gyflwyno'i hargymhellion i'r Comisiwn ym mis Gorffennaf, gan ddisgwyl cyrraedd cytundeb ar fap Amcan 2 newydd yn yr hydref.

14. Fel rhan o'r trafodaethau ynghylch mabwysiadu Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol newydd ar gyfer 2000-06, cytunwyd ar drefniadau trosiannol ar gyfer yr ardaloedd hynny na fyddant yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cefnogaeth Amcan 2. Yn yr achosion hyn, bydd Cronfeydd Strwythurol yn dal i fod ar gael am 6 blynedd arall ond ar sail a fydd yn lleihau'n raddol. Bydd yr ardaloedd Amcan 2 sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru yn parhau, felly, i elwa o gefnogaeth o'r fath hyd 31 Rhagfyr 2005.

**Y Tasglu Ewropeaidd**

15. Ym mis Hydref 1998, sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd Dasglu (ceir rhestr o'r aelodau yn Atodiad B) i gydlynu'r trefniadau ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd. Mae'r Tasglu yn paratoi:

- Strategaeth Ddatblygu genedlaethol ddrafft i ddarparu fframwaith economaidd ar gyfer pob ardal yng Nghymru, waeth beth yw eu statws o dan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol;
- Dogfen Rhaglen Unigol ddrafft ar gyfer yr ardal Amcan 1;
- Rhaglen Weithredol ddrafft ar gyfer Amcan 3 (Cronfa Gymdeithasol Ewrop)

16. Bydd y Tasglu yn cyfarfod ar 22 Mehefin i ystyried drafftiau o bob dogfen fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus chwe-wythnos a gynlluniwyd i gychwyn ar ddechrau mis Gorffennaf. Bydd y dogfennau yn cael eu mireinio yng ngoleuni'r ymgynghoriad, a bydd y fersiynau terfynol yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad er mwyn iddo eu hystyried a'u cymeradwyo ar ddechrau mis Medi.

17. Yn ôl y Rheoliadau, rhaid i Ddogfennau Rhaglenni Unigol Amcan 1 gael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd cyn pen 4 mis ar ôl mabwysiadu'r Rheoliadau yn ffurfiol – sef erbyn diwedd mis Hydref yn ôl yr amserlen bresennol. Wedyn, byddai gan y Comisiwn 5 mis i ymateb. Ni ragwelir felly y bydd y Rhaglen Amcan 1 yn cael ei gweithredu hyd Gwanwyn 2000.

18. Yn achos Amcan 2, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Ddogfen Rhaglen Sengl gael ei chyflwyno cyn pen 4 mis ar ôl cytuno ar yr ardaloedd cymwys. A bwrw mai 30 Medi fydd y dyddiad hwnnw, mae hyn yn golygu mai 31 Ionawr 2000 fydd y dyddiad cau ar gyfer

cyflwyno. Unwaith eto, byddai gan y Comisiwn 5 mis i ymateb i’r ddogfen gan awgrymu na fyddai unrhyw weithredu’n digwydd hyd ddiwedd y Gwanwyn / dechrau’r Haf 2000. Er hynny, mae gwaith paratoadol eisoes ar y gweill a’r nod fyddai caniatáu i’r Cynulliad ystyried cynnwys y cyflwyniad mewn da bryd o fewn y fframwaith amser.

19. Amcan 3 yw’r prif raglen arall i Gymru. Cafwyd cytundeb y bydd Fframwaith Cefnogaeth Cymunedol sengl ar gyfer y DU ac mae angen i hyn fod yn gyson â Chynllun Gweithredu Cyflogaeth Cenedlaethol y DU ynghyd â’r Canllawiau Cyflogaeth. Er hynny, bydd cyfres o Raglenni Gweithredol yn cefnogi hyn, a bydd un o’r rhain yn ymdrin â’r rhannau hynny o Gymru nad ydynt wedi’u cynnwys dan Amcan 1 (mae gweithgareddau Amcan 3 eisoes wedi eu hintigreiddio â’r Rhaglen Amcan 1). Bydd y ddogfen hon yn darparu ar gyfer blaenoriaethau penodol marchnad lafur Cymru. Eisoes mae cryn waith wedi’i gyflawni ar y Rhaglen Weithredu a fydd yn cael ei chyflwyno i gael ei hystyried gan y Cynulliad ym mis Medi.

20. Elfen derfynol y Rhaglenni newydd yw’r 4 Menter Gymunedol. Bydd Cymru yn gymwys i dderbyn cefnogaeth o dan bob un o’r pedair menter (INTERREG, LEADER+, EQUAL, ac URBAN). Mae’r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi cynigion manwl erbyn diwedd Gorffennaf. Nid yw’n debygol y ceir cytundeb i’r cynigion hyn hyd ddiwedd 1999. Hyd hynny, ni fydd y gweithdrefnau gweinyddol o ddewis ardaloedd, cyflwyno Rhaglenni a chytuno arnynt yn dechrau mewn gwirionedd. Felly, nid yw’n debygol y gellir dechrau gweithredu’r Mentrau hyn tan ddiwedd 2000.

**ATODIAD B**

## Aelodaeth y Tasglu Ewropeaidd

- Y Swyddfa Gymreig
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Bwrdd Croeso Cymru (WTB)
- Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr yng Nghymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Y Comisiwn Cefn Gwlad
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Y Pedwar Fforwm Economaidd rhanbarthol
- Cyngor CHMau Cymru
- Fforwm
- Penaethiaid Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru
- Y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal
- Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- Anabledd Cymru
- Mr Wayne David ASE
- Mr Hywel Ceri Jones

Mae’r Swyddfa Gymreig, y WDA a CLlLC yn darparu’r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Tasglu.